

SEICLON IDAI

TROSOLWG I ATHRAWON

Cyflwyniad

Cyrhaeddodd Seiclón Idai y tir ym Mozambique yn y nos ar 14–15 Mawrth 2019. Achosodd y system dywydd hon ddifrod mawr ym Mozambique, Malawi a Zimbabwe. Mae gwyntoedd cryf dros 150mya, ymchwydd storm yr amcangyfrifir ei bod yn 2.5 metr o uchder, glaw trwm, a llifogydd dros ardal eang wedi cael effaith ddifrifol ar fywydau dros 2.6 miliwn o bobl. Mae cartrefi, ffyrdd, pontydd, ysgolion a chyfleusterau iechyd wedi cael eu dinistrio, ac mae tir amaethyddol wedi'i ddifetha'n llwyr mewn rhai ardaloedd. Yn ôl Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig dyma "un o'r trychinebau gwaethaf sy'n gysylltiedig â'r tywydd yn hanes Affrica".¹

Lluniwyd yr adnodd hwn er mwyn codi ymwybyddiaeth o effeithiau trychinebau fel Seiclón Idai a helpu dysgwyr i feddwl yn feirniadol beth sy'n gwneud rhai pobl yn fwy agored i drychinebau na'i gilydd, a beth y gellir ei wneud er mwyn gwneud y sefyllfa'n decach. Mae'n cynnwys sioe sleidiau a sgrïpt i fynd gyda'r sleidiau (gwelir y sgrïpt yn nodiadau'r sleidiau). Gellid cyflwyno'r adnodd mewn gwasanaeth neu yn ystod amser tiwtor, neu sesiwn amser cylch, neu i gefnogi dull arall o ddysgu yn y dosbarth. Lluniwyd yr adnodd i'w ddefnyddio gyda phlant 9-14 oed, ond gellid ei addasu ar gyfer anghenion dysgwyr hŷn neu iau.

Mae wedi'i rannu'n adrannau fel a ganlyn:

- Adran 1 (sleidiau 2–6): Beth yw trychineb?
- Adran 2 (sleidiau 7–15): Seiclón Idai
- Adran 3 (sleidiau 16–23): Pam y mae rhai trychinebau yn waeth na'i gilydd?
- Adran 4 (sleidiau 24–29): Ymateb i drychinebau
- Adran 5 (sleidiau 30–32): Gweithredu

Opsiynau ar gyfer yr adnodd:

- Mae **adrannau 1, 2 a 5** yn cynnwys deunydd **gwasanaeth** yn ymwneud ag effaith y seiclón ym Mozambique, Malawi a Zimbabwe a sut y gallai pobl ifanc yn y Deyrnas Unedig (y DU) ddewis ymateb i'r digwyddiad hwn.
- Mae **adrannau 3 a 4** yn cynnwys rhagor o fanylion ynglŷn â pham y mae rhai trychinebau'n cael mwy o effaith ar bobl, a sut y defnyddir cymorth i helpu goroeswyr. Maent yn sail ddefnyddiol ar gyfer **gwaith dosbarth**.

Gwelir isod gwestiynau sy'n cael eu hawgrymu ar gyfer trafodaeth i gefnogi meddwl yn feirniadol, yn ogystal â ffeiliau ffeithiau gwledydd a dolenni ac adnoddau defnyddiol. Oherwydd cwrpas cyfyngedig yr adnodd hwn ni ellir gwneud archwiliad llawn o drychineb cymhleth, er enghraifft drwy archwilio ei effaith ar fenywod a merched ifanc, neu sut y mae'n effeithio ar gyfraith a threfn. Yn hytrach, mae'n canolbwyntio ar nifer fach o themâu allweddol. Ceir archwiliad manylach o'r thema yn Dealing with Disasters (manyllion i'w gweld isod).

¹ www.un.org/sg/en/content/sg/press-encounter/2019-03-26/secretary-generals-press-encounter-cyclone-idai-full-transcript

Seiclun Idai

Mae effeithiau Seiclun Idai wedi bod yn ddychrynlyd. Mae dros 800 o bobl wedi marw ar draws y tair gwlad ac mae llawer mwy yn dal ar goll. Mae miliynau o bobl wedi'u gadael yn ddigartref, heb fwyd a gwasanaethau sylfaenol. Er hyn, ni allwn ddweud ar hyn o bryd beth yw effeithiau'r seiclun yn eu cyfanrwydd gan fod llawer o ardaloedd yn dal o dan ddŵr ac mae'n amhosibl mynd iddynt. Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau'n codi.

Mae'n rhy gynnar i ddod i gasgliadau penodol am Seiclun Idai, ond mae ei effeithiau'n gwbl gyson â rhagamcanion gwyddonol am bŵer dinistriol cynyddol seiclunau trofannol o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd – cynnydd mewn glawiad wrth i aer cynhesach ddal mwy o ddŵr, ac ymchwyddiadau storm uwch gan fod lefel y môr yn codi.

Mae llawer o bobl a gollodd eu cartrefi ar ôl i'r seiclun daro bellach yn byw mewn gwerysloedd dros dro mewn amgylchiadau ofnadwy, heb sicrwydd o gyflenwadau bwyd, dŵr yfed glân na glanweithdra. Mae goroeswyr y seiclun yn wynebu prinder dŵr glân a bwyd am gyfnod maith, ac mae perygl iddynt ddal clefydau sy'n cael eu cludo mewn dŵr o ganlyniad i ddŵr llifogydd halogedig. Mae darparwyr gwasanaethau iechyd wedi gweld cynnydd mewn achosion o ddolur rhydd. Yn ninas arfordirol Beira ym Mozambique, y lle cyntaf i'w daro pan gyrhaeddodd y seiclun y tir, cadarnhawyd y farwolaeth gyntaf o golera ac mae dros 500 achos o'r clefyd wedi'u dwyn i sylw'r awdurdodau. Credir y bydd nifer yr achosion o falaria yn codi hefyd.

Mae llawer o gyfleusterau iechyd hefyd wedi'u dinistrio neu wedi cael difrod difrifol, sy'n golygu bod llawer o bobl yn methu â chael gwasanaethau gofal iechyd. Oherwydd glaw trwm, llifogydd a difrod i ffyrdd, pontydd a seilwaith trydan a chyfathrebu mae wedi bod yn anodd i bobl gyrraedd cymunedau i asesu eu hanghenion a darparu cymorth.

Fel rhai o'r gwledydd tlotaf yn y byd, nid oes gan lywodraethau Zimbabwe, Malawi a Mozambique lawer o adnoddau a chapasiti i ymateb i drychinebau cenedlaethol ar raddfa mor fawr. Mae'r gymuned ryngwladol wedi ymateb, ac mae llywodraethau ac asiantaethau cymorth mewn gwahanol rannau o'r byd wedi darparu cymorth. Yn y DU, lansiodd y Pwyllgor Trychinebau ac Argyfyngau apêl i helpu pobl sydd wedi cael eu heffeithio gan y seiclun ar 21 Mawrth 2019, gan godi £8 miliwn yn y 24 awr cyntaf a £10 miliwn yn rhagor yn y tri diwrnod nesaf.² Mae ymateb i'r argyfwng hwn a gwneud y gwledydd hyn yn fwy gwydn er mwyn iddynt allu gwrthsefyll trychinebau yn y dyfodol yn heriau mawr i'w llywodraethau ac i'r gymuned ryngwladol fel ei gilydd.

Mae Oxfam yn ceisio cyrraedd dros hanner miliwn o bobl ar draws y tair gwlad - gan weithio gydag eraill i ddarparu dŵr glân, toiledau a chyfleusterau golchi dwylo i helpu i atal lledaeniad clefydau marwol, fel colera a malaria, yn ogystal â darparu lloches, dillad a bwyd.

Fel ym mhob trychineb bron - mewn gwledydd cyfoethog a thlawd fel ei gilydd - y bobl dlotaf yw'r rhai mwyaf agored i niwed a hwy sy'n cael eu taro galetaf. Er enghraifft, yn Beira mae'r bobl dlotaf yn byw mewn cytiau sinc simsan ac mewn ardaloedd sy'n fwy tueddol o gael llifogydd; mae'r bobl gyfoethocach yn byw ar dir uwch mewn tai sydd â waliau concrit a thoeau cryfach.

Nid yw trychinebau yn taro pawb yr un fath. Mae tlodi, yn ogystal ag anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â hil, rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd, yn gwneud pobl yn fwy agored i niwed. Mae anghydraddoldeb (cyfoeth, adnoddau a chyfleoedd wedi'u dosbarthu'n anghyfartal) rhwng gwledydd, ac o fewn gwledydd,

² www.dec.org.uk/press-release/amount-raised-for-dec-cyclone-idai-appeal-climbs-to-%C2%A318-million



ar gynydd. Mae hyn yn golygu bod rhai gwledydd yn fwy abl na'i gilydd i leihau effeithiau trychinebau ar eu cymunedau tlotaf, ac mae rhai pobl ym mhob gwlad yn fwy abl na'i gilydd i ymateb ac ailadeiladu eu bywydau ar ôl trychineb.

Gall trychinebau gynyddu anghydraddoldeb. Yn aml iawn, y bobl dlotaf sy'n cael eu gadael ar ôl i ddiodef, a hynny'n aml gan mai nhw sy'n cael eu taro galetaf pan fydd trychineb yn digwydd. Dyma pam y mae Oxfam ac asiantaethau eraill yn ceisio asesu, blaenoriaethu a sicrhau mynediad at y bobl dlotaf a mwyaf agored i niwed wrth ymateb i argyfwng. Rydym yn rhoi blaenoriaeth i helpu menywod, oherwydd eu bod ymhlith y rhai mwyaf agored i niwed, a hefyd oherwydd bod gan fenywod yn aml fwy o gyfrifoldeb dros eu plant a thros drefnu'r cymunedau lle maent yn byw.

Er bod Oxfam yn cefnogi pobl sydd wedi cael eu dal yn Seiclun Idai drwy dargedu'r bobl dlotaf a mwyaf agored i niwed, rydym yn dal i lobïo llywodraethau - er mwyn cael rhagor o gymorth ac adnoddau, a hefyd er mwyn cael polisiau cyhoeddus da, fel amddiffyniad cymdeithasol i bawb, sylw i faterion iechyd ac addysg o safon gyda'r bwriad o helpu gwledydd a chymunedau i ailadeiladu eu hunain yn well.

Meddwl yn feirniadol

Mae'r adnodd hwn yn helpu dysgwyr i feddwl yn feirniadol am effeithiau trychinebau fel Seiclun Idai a pham y mae rhai pobl yn fwy agored i niwed na'i gilydd.

Dyma rai cwestiynau y gellid eu harchwilio gyda'r dysgwyr:

- Pam y mae effeithiau stormydd trofannol difrifol yn Unol Daleithiau America (UDA) wedi bod mor wahanol i'r effeithiau ym Mozambique, Malawi a Zimbabwe?
- A yw Seiclun Idai wedi cael yr un effaith ar bawb sy'n byw ym Mozambique, Malawi a Zimbabwe? Beth yw'r rhesymau dros unrhyw wahaniaethau?
- Pa ffactorau sy'n gwneud rhai trychinebau yn waeth na'i gilydd?
- Pa rai o'r ffactorau hyn, yn eich barn chi, wnaeth ddylanwadu fwyaf ar effeithiau Seiclun Idai? Pam?

Adnoddau a dolenni defnyddiol

- Mae adnodd Dealing with Disasters gan Oxfam, ar gyfer plant 11–14 oed, yn darparu gweithgareddau ystafell ddosbarth sy'n archwilio pam y mae trychinebau'n digwydd, a ellir eu hatal a beth y gellir ei wneud i helpu.
www.oxfam.org.uk/education/resources/dealing-with-disasters
- Mae'n amhosibl dweud bod unrhyw storm benodol wedi'i hachosi gan newid yn yr hinsawdd. Er hyn, mae'r wyddoniaeth orau sydd ar gael am yr hinsawdd yn dangos bod newid hinsawdd yn cynyddu dwysedd ac amllder trychinebau sy'n gysylltiedig â'r tywydd, megis teiffwnau a sychder. Mae adnoddau Her Hinsawdd Oxfam yn canolbwyntio ar effaith newid hinsawdd ar bobl: sut mae cymunedau o amgylch y byd yn cael eu heffeithio gan newid hinsawdd a sut mae pobl yn ymateb ac yn addasu i'r heriau hyn.
7–11 oed: www.oxfam.org.uk/education/resources/climate-challenge-7-11
11–14 oed: www.oxfam.org.uk/cy-GB/education/resources/climate-challenge-11-14
- Gallai'r dysgwyr ddefnyddio offer ystafell ddosbarth fel cadwyn pam-pam-pam neu olwyn ganlyniadau i'w helpu i feddwl yn feirniadol am effeithiau trychinebau a pham y mae rhai pobl yn fwy agored i niwed na'i gilydd. I gael rhagor o fanylion, gweler Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr Ystafell Ddosbarth: Canllaw i athrawon gan Oxfam.



www.oxfam.org.uk/cy-GB/education/resources/global-citizenship-in-the-classroom-a-guide-for-teachers

- Mae dinasyddiaeth fyd-eang weithredol yn ymwneud â grymuso pobl ifanc i gymryd camau hunangyfeiriedig mewn cysylltiad â'r materion sy'n bwysig iddyn nhw. Gall codi arian fod yn ddull ystyrlon a phwysig o weithredu. Gall yr offer a ganlyn helpu i gynorthwyo dysgwyr i wneud y gorau o unrhyw gyfleoedd i godi arian, gan helpu i ddatblygu sgiliau newydd a dealltwriaeth.
www.oxfam.org.uk/education/resources/fundraising-guides-for-schools
- Gallai dysgwyr 11–18 oed sefydlu neu ymuno â grŵp ysgol Oxfam er mwyn darganfod mwy am y materion y mae Oxfam yn gweithio arnynt, datblygu eu sgiliau arweinyddiaeth, cymryd rhan mewn ymgyrchoedd a chodi llais yn erbyn tlodi byd-eang.
www.oxfam.org.uk/education/get-involved/start-an-oxfam-school-group

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Cewch ddefnyddio ffotograffau a gwybodaeth gysylltiedig o'r adnodd hwn at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid ichi gydnabod y ffotograffydd a enwyd ar gyfer y ddelwedd honno ac Oxfam. Ni chewch ddefnyddio delweddau a gwybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol neu y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn ymwneud â'r dyddiad a'r amser pan ddigwyddodd y gwaith prosiect.

Ffeiliau ffeithiau gwledydd

Mozambique, Malawi a Zimbabwe

Malawi

Prifddinas: Lilongwe

Poblogaeth: 18.6 miliwn

Daearyddiaeth: Gwlad wedi'i hamgylchynu gan dir, yn ffinio â Zambia, Tanzania a Mozambique. Mae Llyn Malawi yn gorchuddio traean o arwynebedd Malawi.

Cyfartaledd Incwm blynyddol y pen: US\$320


Disgwyliad oes cyfartalog: 63 oed

Canran o'r boblogaeth sy'n byw mewn tlodi eithafol: 70.3%

Canran o'r boblogaeth sy'n defnyddio gwasanaethau dŵr yfed sylfaenol o leiaf: 67%

Canran o'r boblogaeth sydd â mynediad at drydan: 11%

Sgôr Mynegai Datblygiad Dynol: 174 allan o 187 o wledydd*



Ffynonellau data:

- data.worldbank.org
- hdr.undp.org/en/content/in-equality-adjusted-hdi

Mozambique

Prifddinas: Maputo

Poblogaeth: 29.7 miliwn

Daearyddiaeth: Yn ffinio â Tanzania, Malawi, Zambia, Zimbabwe, Gwlad Swazi, De Affrica a Chefnfor India (â morlin 1,500 milltir o hyd).

Cyfartaledd Incwm blynyddol y pen: US\$420

Disgwyliad oes cyfartalog: 58 oed

Canran o'r boblogaeth sy'n byw mewn tlodi eithafol: 62.4%

Canran o'r boblogaeth sy'n defnyddio gwasanaethau dŵr yfed sylfaenol o leiaf: 47%

Canran o'r boblogaeth sydd â mynediad at drydan: 24.2%

Sgôr Mynegai Datblygiad Dynol: 178 allan o 187 o wledydd*

Zimbabwe

Capital: Harare

Poblogaeth: 16.5 miliwn

Daearyddiaeth: Gwlad wedi'i hamgylchynu gan dir yn ffinio â De Affrica, Botswana, Zambia a Mozambique. Mae Rhaeadr Victoria, un o'r rhaedrau mwyaf yn y byd, ac un o'r rhai mwyaf trawiadol, yng ngogledd-orllewin y wlad, ger y ffin â Zambia.

Cyfartaledd Incwm blynyddol y pen: US\$1,170

Disgwyliad oes cyfartalog: 61 oed

Canran o'r boblogaeth sy'n byw mewn tlodi eithafol: Dim data diweddar

Canran o'r boblogaeth sy'n defnyddio gwasanaethau dŵr yfed sylfaenol o leiaf: 67%

Canran o'r boblogaeth sydd â mynediad at drydan: 38.1%

Sgôr Mynegai Datblygiad Dynol: 156 allan o 187 o wledydd

*Mae'r ffigurau a ddarparwyd ar gyfer y Mynegai Datblygiad Dynol ar ôl Ystyried Anghydraddoldeb, sy'n edrych ar ddangosyddion iechyd, addysg ac incwm ar y cyd â lefel anghydraddoldeb gwlad.